OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3054

# Gorchymyn Fferm Wynt ar y Môr Cefnenni Tywod Scarweather 2004

## RHAN II

## GWEITHFEYDD

*Diogelu mordwyo a thraffig awyr, a rheoli sŵn*

**Sŵn wrth adeiladu a gweithredu**

**15.**—(1) Ac eithrio pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo fel arall yn ysgrifenedig, rhaid i'r ymgymerwr—

(a) cydymffurfio â Safon Brydeinig 5228 (Rheoli Sŵn a Dirgryniadau ar Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) Rhannau 1 a 2: 1997 a Rhan 4: 1992 mewn perthynas â'r holl weithgareddau perthnasol a wneir yn ystod adeiladu, cynnal a chadw neu ddadgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig; a

(b) sicrhau y bydd y lefelau uchaf o sŵn a gynhyrchir gan y gweithgareddau hynny wrth arwyneb unrhyw dderbynnydd sy'n sensitif i sŵn heb fod yn uwch na—

(i) lefel o 50 dB LAeq, 8 awr na lefel LAFmax o 60 dB rhwng 23.00 o'r gloch a 07.00 o'r gloch; a

(ii) lefel o 75 dB LAeq, 1 awr rhwng 07.00 o'r gloch a 23.00 o'r gloch.

(2) Ac eithrio pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo fel arall yn ysgrifenedig, rhaid i'r ymgymerwr sicrhau nad yw lefel raddio'r allyriadau sŵn a gynhyrchir wrth weithredu'r tyrbinau gwynt yn uwch na 35 dB LA90, pan gânt eu mesur yn unol â'r canllawiau a geir yn "The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms" (ETSU-R-1997), o dan amodau maes rhydd ar bwynt 1.2 metr uwchben lefel y ddaear ger unrhyw dderbynnydd sy'n sensitif i sŵn, mewn gwyntoedd o gyflymderau hyd at 10 metr yr eiliad wedi'u mesur wrth uchder o 10 metr uwchben lefel y dŵr uchel o fewn safle'r fferm wynt.

(3) Yn yr erthygl hon—

ystyr "gweithgareddau perthnasol" ("*relevant activities*") yw unrhyw weithgareddau a wneir mewn ardal y tu hwnt i awdurdodaeth awdurdod lleol o dan Ran III o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974(**1**);

ystyr "derbynnydd sy'n sensitif i sŵn" ("*noise-sensitive receptor*") yw unrhyw annedd gyfanheddol, neu unrhyw ysbyty, ysgol neu gartref gorffwys sy'n bodoli.

(**1**) 1974 p.40.